CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod llawn o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Bodorgan ar 25 TACHWEDD 2019.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Ms Sharon Barton, Ms Arianwen Owen, Mr Myfyr Davies, Mr Andrew Hughes, Mr Gareth Evans, Mr Jeff Hughes, Mr Selwyn Williams, Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwr Mr Gwilym Looms, Mr Selwyn Williams & Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers.

3 CROESO

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3.2 Croesawyd Cynghorwraig Ms Arianwen Owen i'w chyfarfod cyntaf fel aelod newydd o'r Cyngor ac fe chafwyd ei cyfethol yn unfrdyol (DJ/TO).

4 DATGAN DIDDORDEB

4.1 Nid oedd neb yn datgan diddordeb personol mewn unrhyw eitem rhestredig.

5 CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.

5.1 Cyfarfod Misol 17/09/2019 – cynnig (AH), eilio (TO) ei bod yn rhai cywir.

6 MATERION YN CODI.

6.1 **Archwiliad Allanol -** dywedodd y Clerc ei fod yn parhau I ddisgwyl am adroddiad terfynnol yr adroddiadau.

6.2 **Carafan, Swn y Mor** – dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen fod trafodaethau gyda'r Cyngor Sir (Adran Cynllunio) er mwyn datrys y sefyllfa.

6.3 **Safle Maes Glas, Bethel** – penderfynwyd ail-agor trafodaethau gyda'r Cyngor Sir a gofyn I'r Clerc ddarparu llythyr perthnasol atynt.

6.4 **Llinellau Melyn ger y Meddygfa** – wedi ei ddatrys.

6.5 **Lamp Stryd, Maes Parcio, Morawelon, Malltraeth** – nodwyd fod angen sylw i'r mater yma.

6.6 **Gorchymyn Gwahardd Traffig Dros Dro – Amryw Leoliadau Ynys Mon) (Gwahardd Aros & Ysgol Cadwch yn Glir – Dim Stopio)** mewn safleoedd ym Mhethel & Malltraeth)

6.7 **Gorchymyn Gwahardd Traffig Dros Dro** – (Lon Glantraeth, Bethel) ar gyfer gwaith Openreach.

6.8 **Cais Cynllunio Cae Eithin, Malltraeth (VAR/2019/14)** – nodwyd fod y cais cynllunio wedi derbyn caniatad yr Adran Cynllunio.

6.9 **Adroddiad Cyfarfod gyda Pwyllgor Safonau y Cyngor Sir** – cafwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cadeirydd yn dilyn cyfarfod cafwyd gyda aelodau y Pwyllgor Safonau ac disgwylir ymateb cyn y cyfarfod nesaf.

6.10 **Cwyn Ombwdsmon yn erbyn Cadeirydd y Cyngor Cymuned gan Mike Wilson o'r Pwyllgor Safonau** – nodwyd nad oedd gan yr Ombwdsmon rheswm am fwrw ymlaen gyda'r achos yn erbyn y Cadeirydd.

6.11 **Cabinet Diffibriliwr** – nodwyd y byddai'r Cyngor yn fodlon gosod a talu am cabinet newydd gyda amod cyfraniad.

7 MATERION CYLLID

7.1 Cytunwyd gyda rhestr taliadau a derbyniadau y Cyngor am fisoedd Medi & Hydref 2019 yn unfrydol ac fe arwyddodd y cadeirydd y ddogfen cysoni yn ogystal a fantolen banc fel cadarnhad.

7.2 Cytunwyd talu'r billau canlynol:
7.2.1 Mon Grass Cutting - £1,910 (Mynwent £1330 / Llwybrau £460 / Cob £70 / Cwt Glas £50)
7.2.2 Stad Bodorgan - £1,612.75 – Rhenti Hanner Blwyddyn)
7.2.3 Mr J A Foulkes – Cyflog Hydref/Tachwedd/Rhagfyr - £750.00
7.2.4 HMRC – PAYE - £187.50

7.3 Adroddiad Archwiliad Blynyddol – dim adroddiad ar hyn o bryd.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIROL.

8.1 Mynedfa Stad Morawelon - nodwyd fod cwyn wedi ei dderbyn ac fod angen sylw i'r safle ger mynedfa Stad Morawelon **– y Clerc a Cynghorydd Sirol Bryan Owen i ddarparu llythyr i'r Cyngor Sir.**

Arwyddo……

9 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

Cafwyd adroddiad cryno gan y Cadeirydd:

9.1 Pryder ynglyn a defnydd dyfodol y Canolfan

9.2 Fod ffurflen trosglwyddo asedau yn barod.

9.3 Galwad Gynadledda gyda Cwmni Ashworth.

9.4 Trafodaethau gyda Mr Dylan Edwards o'r Cyngor Sir yn parhau.

9.5 Angen penodi swyddogion a symud ymlaen gyda sefydlu Is-Bwyllgor.

10 GOHEBIAETH

10.1 Pencampwyr Iaith – dim adroddiad.

10.2 Ymgynghoriadau Cynllunio – er gwybodaeth.

10.3 Dyletswyddau Bioamrywiaeth & Chydnerthedd Ecosystemau – er gwybodaeth.

10.4 Bil Llywodraeth Leol & Etholiadau (Cymru) – er gwybodaeth.

10.5 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Gyfartal – er gwybodaeth.

10.6 Peiriannau Dwr o ail-lenwi potell – er gwybodaeth. **Yn dilyn trafodaeth nid oedd unrhyw aelod a diddordeb fod y Cyngor yn cymeryd y cyfrifoldeb gan cynnwys costau cynnal a chadw yr offer.**

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS IONAWR 2020.

11.1 Clowyd y cyfarfod am 7:55yh.